CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Cabinet**

Dyddiad y Cyfarfod: **5 Rhagfyr 2023**

Teitl: **Adolygiad canol blwyddyn o Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24**

Pwrpas yr adroddiad: **Adrodd ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24**

Er: **Gwybodaeth**

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:
Y Cynghorydd Gareth Davies, Aelod Cabinet ar gyfer Cyllid a Chaffael

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â Chôd Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (y Côd). Mae'r côd yn argymell bod gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cael ei adrodd o leiaf bob chwarter.

Dyma ddiffiniad CIPFA o reoli'r trysorlys:

> *"Rheoli buddsoddiadau'r awdurdod a'i lif arian, ei drefniadau bancio, ei drafodion ar y marchnadoedd arian a'r marchnadoedd cyfalaf; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau yn unol â'r risgiau hynny."*

2. SEFYLLFA'R PORTFFOLIO

Isod mae crynodeb o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion a buddsoddiadau, gyda manylion pellach yn cael eu dadansoddi yn Atodiad A (Buddsoddiadau) ac Atodiad B (Dyledion).

	Ar 30/09/2023 £m	Ar 31/03/2023 £m
Benthyca Allanol		
Benthyciadau'r PWLB	100.6	101.1
Benthyciad marchnad	5.8	5.8
Benthyciad ad-daladwy Llyw.C	0.8	0.9
Cyfanswm y Ddyled	**107.2**	**107.8**
Buddsoddiadau sy'n cael eu dal		
Yn fewnol	51.9	38.7

Cyfanswm y Buddsoddiadau	**51.9**	**38.7**
Dyled Net	**55.3**	**69.1**

3. DIWEDDARIAD ECONOMAIDD

Fel y gwyddys, mae gwybodaeth a data ynghylch y sefyllfa economaidd wedi bod yn newid yn gyflym yn ystod 2023. Ysgrifennwyd y diweddariad isod ar ddiwedd mis Medi 2023.

- Yn ystod ail chwarter 2023/24 gwelwyd y canlynol:
  - Cododd cyfraddau llog gan 100 pwynt sylfaen, sy'n golygu bod Cyfradd y Banc wedi codi o 4.25% i 5.25%. Mae cyfarfodydd dilynol Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) ym misoedd Medi a Thachwedd 23 wedi cadw Cyfradd y Banc ar 5.25%.
  - Mae giltiau byr, canolig a hir-dymor yn parhau i fod yn uchel wrth i chwyddiant barhau i fynd ar i fyny.
  - Gostyngiad o 0.5% o fis i fis yn y cynnyrch domestig gros (GDP) gwirioneddol ym mis Gorffennaf, a briodolwyd yn bennaf i streiciau parhaus.
  - Disgynnodd y chwyddiant o ran Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 8.7% ym mis Ebrill i 6.7% ym mis Awst, y gyfradd isaf ers Chwefror 2022, ond yr uchaf yn yr G7 o hyd. Erbyn mis Hydref 2023 roedd chwyddiant CPI i lawr i 4.6%.
  - Gostegodd amodau'r farchnad lafur, ond nid oes tystiolaeth eto ei fod wedi arwain at arafu'r twf mewn cyflogau (roedd yr enillion cyfartalog tri-misol wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn i 7.8% ym mis Awst, heb gynnwys taliadau bonws).

- Gostyngiad yn y Mynegai Rheolwyr Prynu *(Purchasing Managers Index)* cyfansawdd o 48.6 ym mis Awst i 46.8 ym mis Medi, sef ei lefel isaf ers pandemig COVID-19, gan fynegi teimladau mwy pesimistaidd ynghylch yr economi ymhlith cwmnïau.
- Roedd gwerthiant cyffredinol ym mis Awst 0.2% yn is na'r hyn ydoedd ym mis Mai, sy'n awgrymu bod llawer o'r gwytnwch yng ngweithgarwch manwerthu yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn wedi pylu.
- Wrth i rwystr cynyddol y cyfraddau llog uwch ddwysáu dros y chwe mis nesaf, mae ein Cynghorwyr Trysorlys yn disgwyl i'r economi barhau i golli momentwm a mynd i ddirwasgiad cymedrol cyn bo hir. Er bod anterth y cwymp go iawn mewn incwm gwario cartrefi wedi pasio erbyn hyn, mae'r broses o ddileu'n raddol y pecynnau cymorth ariannol a ddarparwyd gan y llywodraeth yn ystod yr argyfwng ynni yn golygu y bydd incwm gwirioneddol pobl yn annhebygol o godi'n nerthol.
- Disgwylir y bydd Banc Lloegr yn cadw cyfraddau llog ar ei anterth tebygol o 5.25% tan ail hanner 2024. Mae cyfraddau morgeisi yn debygol o aros yn uwch na 5.0% am oddeutu blwyddyn hefyd.
- Yn ei gyfarfodydd polisi ariannol diweddaraf mae Banc Lloegr wedi cadw'r cyfraddau llog ar 5.25%. Mae'n ymddangos fod y lleihad yn chwyddiant CPI, y gostegu diweddar yn y farchnad lafur a'r arolygon digalon ynghylch

gweithgarwch wedi darbwyllo Banc Lloegr ei fod wedi codi cyfraddau yn ddigon pell erbyn hyn.

- Mae'r FTSE 100 wedi dringo mwy na 2% ers diwedd mis Awst, o tua 7,440 ar 31 Awst i 7,608 ar 29 Medi. Mae'r cynnydd wedi'i ysgogi'n bennaf gan brisiau ynni uwch a roddodd hwb i werth y cwmnïau ynni. Mae'r nifer gymharol uchel o gwmnïau ynni yn y FTSE 100 wedi helpu i egluro pam fod cyfranddaliadau yn y DU wedi perfformio'n well nag yn yr Unol Daleithiau a pharth yr Ewro ym mis Medi.

4. RHAGOLYGON CYFRADDAU LLOG

Mae'r Cyngor wedi penodi Link Group yn ymgynghorwyr trysorlys a rhan o'u gwasanaeth yw helpu'r Cyngor i ffurfio barn ar gyfraddau llog. Mae'r rhagolygon isod o gyfraddau'r PWLB wedi'u seilio ar y Gyfradd Sicrwydd (y gyfradd safonol namyn 20 pwynt sylfaenol).

Mae'r rhagolwg diweddaraf, a wnaed ar 7 Tachwedd 2023, yn nodi'r farn y bydd cyfraddau llog byr- a hir-dymor yn uchel am beth amser wrth i Fanc Lloegr geisio gwasgu chwyddiant allan o'r economi, mewn cyd-destun o economi ystyfnig o gadarn a marchnad lafur dynn.

Rhagolygon Link Treasury Services o Gyfraddau Llog – ar 7 Tachwedd 2023

	Rhag-23	**Mawrth-24**	**Mehe-24**	**Medi-24**	**Rhag-24**	**Mawrth-25**	**Mehe-25**	**Medi-25**
Rhagolwg o Gyfradd y Banc	5.25%	5.25%	5.25%	5.00%	4.50%	4.00%	3.50%	3.25%
Cyfradd fenthyca PWLB								
5 mlynedd PWLB	5.10%	5.00%	4.90%	4.70%	4.40%	4.20%	4.00%	3.90%
10 mlynedd PWLB	5.00%	4.90%	4.80%	4.60%	4.40%	4.20%	4.00%	3.80%
25 mlynedd PWLB	5.40%	5.20%	5.10%	4.90%	4.70%	4.40%	4.30%	4.10%
50 mlynedd PWLB	5.20%	5.00%	4.90%	4.70%	4.50%	4.20%	4.10%	3.90%

5. Y STRATEGAETH AR GYFER 2023/24

Cymeradwywyd strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth 2023. Yn Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor amlinellwyd mai blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw sicrhau diogelwch o ran cyfalaf a hylifedd. Y nod yw sicrhau'r elw gorau ar y buddsoddiadau a hynny'n gydnaws â'r lefelau priodol o ddiogelwch a hylifedd. Yn gyffredinol, rhagwelwyd y byddai'r buddsoddiadau o ran gofynion llif arian craidd am gyfnodau hyd at 3 mis, ond byddai cyfle i fuddsoddi am gyfnodau hwy (hyd at flwyddyn) pe byddai balansau dros ben ar gael ar gyfer buddsoddi. Hyd yma, mae'r holl fuddsoddiadau eleni wedi bod yn unol â'r strategaeth.

O ran benthyca, mae gan y Cyngor falans eithaf sylweddol ac mae'n parhau i gynnal ei fenthyciadau mewnol sy'n helpu i sicrhau arbedion refeniw.

6. PORTFFOLIO BUDDSODDI

Yn atodiad A ceir rhestr lawn o'r buddsoddiadau sy'n cael eu dal ar 30/09/2023. Mae mwyafrif y buddsoddiadau yn rhai tymor byr, gan sicrhau bod y dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â chyflogau, budd-dal tai a rhediadau taliadau credydwyr yn cael eu cwmpasu o fewn mis. Pan fo arian yn caniatáu, ychwanegir buddsoddiadau aeddfedu sydd â dyddiadau hwy er mwyn manteisio ar enillion uwch.

Mae buddsoddiadau ar gyfer chwe mis cyntaf 2023/24 wedi arwain at incwm o £1.332m ar sail cyllideb o £667k, gyda'r canlyniad bod amrywiad ffafriol o £665k. Mae hyn yn sgil cyfraddau llog uwch na'r disgwyl pan osodwyd y gyllideb.

Y gyllideb ar gyfer y flwyddyn yn llawn ar gyfer incwm buddsoddi yw £1.3m a rhagwelir y cyflawnir incwm o £2.4m gyda'r canlyniad bod amrywiad ffafriol o £1.1m ar gyfer y flwyddyn.

7. PORTFFOLIO BENTHYCA

Yn ystod 2023/24 hyd yn hyn, ni chymerwyd allan fenthyciadau newydd o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ond disgwylir y byddwn yn benthyca'n sylweddol yn hwyrach y flwyddyn. Mae Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron yn gofyn am fenthyciad darbodus o £26.9m dros y ddwy flynedd nesaf a fydd yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Mae amseriad a phroffil y benthyciad gofynnol yma yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. At ei gilydd, rhagwelir y bydd tanwariant o £600k dros y flwyddyn lawn o ran costau benthyca eleni.

Ni fydd benthyciadau PWLB yn aeddfedu yn ystod y flwyddyn.

Yn Atodiad B mae rhestr lawn o'r benthyciadau sy'n cael eu dal ar 30/09/2023.

8. AILDREFNU DYLEDION

Wrth i'r economi barhau i symud tuag at y cyfraddau llog uwch, efallai y bydd cyfleoedd ar gael i aildrefnu dyledion – cyfleoedd sydd heb fod ar gael ers dros ddegawd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac yn gwerthuso'r cyfleoedd fydd ar gael os bydd y balansau'n caniatáu hynny.

Hyd yn hyn yn y flwyddyn ariannol hon, ni ad-dalwyd dyled cyn amser ac ni aildrefnwyd dyledion chwaith.

9. CYDYMFFURFIO Â THERFYNAU'R TRYSORLYS

Yn ystod y flwyddyn ariannol hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi gweithredu o fewn terfynau'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn adroddiad Strategaeth Rheoli Trysorlys cymeradwy'r Cyngor am y flwyddyn. Yn Atodiad C gwelir Dangosyddion Darbodus 2023/24.

10. YMGYNGHORWYR Y TRYSORLYS

Mae'r Cyngor yn cyflogi Link Treasury Solutions Ltd fel ymgynghorydd allanol i'r Cyngor parthed y Trysorlys, ar gontract sy'n rhedeg tan 30/08/2026. Mae Link yn cynorthwyo drwy ddarparu dadansoddiad o deilyngdod credyd y parti arall mewn buddsoddiad, mae'n darparu rhagolygon o ran symudiadau cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus, mae'n cynnal adolygiadau o fantolenni, mae'n rhoi gwybodaeth yn rheolaidd am y newidiadau diweddaraf o ran yr economi a gwleidyddiaeth ynghyd â rhoi cyngor ynghylch unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu safonau cyfrifyddu.

11. CONTRACT BANCIO

Cyflwynir adroddiad ar wahân i'r Cabinet i roi'r diweddaraf am y tendr am Wasanaethau Bancio.

12. HYFFORDDIANT AR GYFER YR AELODAU

Bu'r Aelodau'n rhan o hyfforddiant ar-lein a gyflwynwyd gan Link ar 8 Tachwedd 2022. Amcanion yr hyfforddiant oedd:

- Deall yr hyn sydd ynghlwm wrth Reoli'r Trysorlys a sut y caiff hyn ei wneud.
- Deall rôl Swyddogion a Chynghorwyr mewn penderfyniadau ynghylch Rheoli'r Trysorlys.
- Deall y risgiau a'r cyfleoedd o ran Rheoli'r Trysorlys a sut y dylid eu rheoli.
- Datblygu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i wneud penderfyniadau ynghylch Rheoli'r Trysorlys.
- Adolygu'r strategaeth integredig bresennol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys (dyledion a buddsoddiadau).
- Meithrin dealltwriaeth o sefyllfa mantolen yr Awdurdod gan gynnwys ei sylfaen o asedau a'i fenthyciadau.
- Meithrin gwerthfawrogiad eang o effaith pandemig COVID-19 a'r pwysau oherwydd chwyddiant yn dilyn hynny ar y rhagolygon economaidd a'r penderfyniadau a wneir o ran Rheoli'r Trysorlys.

<u>Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:</u>
A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam.

Naddo: Adroddiad er gwybodaeth yn unig.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig
Cydweithio:	Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig
Cynnwys:	Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig
Atal:	Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig
Integreiddio:	Ddim yn berthnasol – er gwybodaeth yn unig

<u>Argymhelliad:</u>
Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniad:
Nid oes angen gwneud penderfyniad.

Trosolwg a Chraffu:
Ystyriwyd yn ystod y broses o gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24.

Fframwaith Polisi:
Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24

Blaenoriaethau Llesiant Corfforaethol:
Mae Rheoli'r Trysorlys yn sail i'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol.

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:
Adrodd gwybodaeth ynghylch y gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys a'r incwm buddsoddi a'r llog allanol a dalwyd yn y flwyddyn.

Goblygiadau cyfreithiol:
Dim

Goblygiadau Staffio:
Dim

Goblygiadau eiddo / asedau:
Adrodd ynghylch perfformiad y balansau buddsoddi sy'n cael eu dal gan y Cyngor.

Risg(iau):
Dim

Pwerau Statudol:
Deddf Llywodraeth Leol 2003

Papurau Cefndirol:
Yr adroddiad ynghylch Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24 a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn (Mawrth 2023)

Atodiadau:
Atodiad A – Portffolio Buddsoddi
Atodiad B – Portffolio Dyledion
Atodiad C – Dangosyddion Darbodus

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Duncan Hall, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Swyddog Adrodd:
Justin Davies, Rheolwr Corfforaethol – Cyllid Craidd

Dyddiad:
15 Tachwedd 2023

Atodiad A

PORTFFOLIO BUDDSODDI AR 30/09/2023:

Manylion	Gwerth	Cyfradd Llog	Buddsoddiad	
	£	%	o	i
Buddsoddiadau Cyfnod Penodol				
Marchnadoedd Corfforaethol Lloyds Bank	£2,000,000	4.87%	04/04/2023	04/10/2023
Standard Chartered Sustainable Deposit	£2,000,000	5.23%	06/06/2023	06/12/2023
Marchnadoedd Corfforaethol Banc Lloyds	£1,000,000	5.49%	16/06/2023	15/12/2023
Marchnadoedd Corfforaethol Banc Lloyds	£1,500,000	5.65%	21/06/2023	21/12/2023
Marchnadoedd Corfforaethol Banc Lloyds	£1,000,000	5.95%	28/06/2023	28/12/2023
Goldman Sachs International	£2,000,000	5.53%	18/07/2023	20/10/2023
Bank of Scotland	£500,000	5.33%	19/07/2023	20/10/2023
Santander UK	£1,000,000	5.39%	19/07/2023	20/10/2023
Santander UK	£1,000,000	5.39%	19/07/2023	24/10/2023
Goldman Sachs International	£2,000,000	5.60%	01/08/2023	01/11/2023
NatWest Markets	£5,000,000	5.42%	09/08/2023	09/11/2023
DMADF	£1,000,000	5.20%	30/08/2023	03/10/2023
DMADF	£2,000,000	5.21%	30/08/2023	06/10/2023
DMADF	£1,000,000	5.22%	30/08/2023	09/10/2023
DMADF	£1,000,000	5.22%	30/08/2023	10/10/2023
DMADF	£1,000,000	5.24%	30/08/2023	13/10/2023
DMADF	£1,000,000	5.23%	31/08/2023	13/10/2023
DMADF	£1,000,000	5.24%	01/09/2023	17/10/2023
DMADF	£1,500,000	5.27%	01/09/2023	27/10/2023
DMADF	£2,000,000	5.22%	05/09/2023	05/10/2023
DMADF	£2,500,000	5.27%	05/09/2023	23/10/2023
Cymdeithas Adeiladu Nationwide	£2,500,000	5.37%	05/09/2023	08/12/2023
Standard Chartered Sustainable Deposit	£2,000,000	5.76%	05/09/2023	05/03/2024
Cymdeithas Adeiladu Leeds	£1,000,000	5.38%	07/09/2023	07/12/2023
Cymdeithas Adeiladu Leeds	£1,000,000	5.38%	11/09/2023	12/12/2023
Cymdeithas Adeiladu Leeds	£1,000,000	5.40%	14/09/2023	14/12/2023
DMADF	£1,000,000	5.32%	18/09/2023	27/10/2023
DMADF	£2,500,000	5.18%	22/09/2023	31/10/2023
DMADF	£3,500,000	5.18%	25/09/2023	31/10/2023
DMADF	£500,000	5.18%	26/09/2023	31/10/2023
DMADF	£500,000	5.17%	28/09/2023	31/10/2023
	£48,500,000			
Adneuon yng Nghyfrif Wrth Gefn Barclays				
Banc Barclays	£3,429,510	4.90%	-	-
Cyfanswm y buddsoddiadau ar 30/09/23	**£51,929,510**			

PORTFFOLIO DYLEDION AR 30/09/2023: Atodiad B

Cyfeirnod y Benthyciad	Dull ad-dalu	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Aeddfedu	Cyfradd llog wreiddiol	Balans ar 30/09/23
Benthyciadau PWLB					
417195	**A**	24-Dec-71	02-Dec-31	8.000%	17,186
419325	**A**	21-Mar-72	02-Dec-31	7.750%	12,026
427730	**A**	12-Jun-73	02-Jun-33	9.875%	18,613
478179	**M**	26-Sep-96	31-Mar-56	8.125%	5,000,000
478585	**M**	10-Dec-96	30-Sep-56	7.500%	3,000,000
480055	**M**	13-Oct-97	30-Sep-57	6.375%	6,000,000
480689	**M**	27-Mar-98	30-Sep-52	5.875%	2,000,000
481159	**M**	20-Jul-98	31-Mar-53	5.500%	3,500,000
490819	**M**	24-Nov-05	31-Mar-31	4.250%	2,000,000
490981	**M**	11-Jan-06	31-Mar-51	3.900%	2,000,000
491703	**M**	07-Jun-06	30-Sep-41	4.350%	2,700,000
491819	**M**	07-Jul-06	30-Sep-31	4.500%	5,300,000
491837	**M**	12-Jul-06	02-Jun-39	4.450%	2,000,000
492936	**M**	20-Feb-07	06-Aug-32	4.550%	6,000,000
493733	**M**	10-Aug-07	30-Sep-37	4.750%	9,551,120
501411	**A**	10-Jul-12	31-Mar-32	2.860%	1,138,317
501928	**A**	01-Mar-13	31-Mar-29	2.630%	1,146,639
502054	**A**	28-Mar-13	06-Feb-33	2.860%	1,255,058
502477	**A**	13-Aug-13	30-Sep-28	3.110%	1,128,292
502596	**M**	10-Oct-13	09-Oct-36	4.210%	5,000,000
502827	**M**	06-Feb-14	10-Jan-25	3.660%	3,000,000
502828	**M**	06-Feb-14	10-Jan-27	3.840%	2,000,000
502981	**A**	09-Apr-14	31-Mar-34	3.680%	1,413,119
502982	**A**	09-Apr-14	30-Sep-28	3.230%	1,593,406
503489	**M**	25-Nov-14	31-Mar-45	3.670%	5,000,000
503490	**A**	25-Nov-14	31-Mar-44	3.400%	1,116,593
503728	**M**	09-Feb-15	31-Mar-60	2.750%	4,000,000
503729	**M**	09-Feb-15	31-Mar-61	2.750%	4,000,000
504645	**A**	04-Feb-16	30-Sep-45	2.760%	2,114,052
506318	**M**	06-Sep-17	01-Sep-28	1.970%	2,000,000
506319	**M**	06-Sep-17	01-Sep-46	2.560%	6,000,000
507963	**M**	30-Oct-18	31-Mar-34	2.500%	2,000,000
507964	**M**	30-Oct-18	30-Sep-48	2.460%	1,800,000
508214	**M**	13-Dec-18	30-Sep-39	2.520%	2,000,000
509622	**M**	08-Aug-19	30-Sep-58	1.970%	2,000,000
509623	**M**	08-Aug-19	30-Sep-34	1.730%	1,800,000
					100,604,421
Benthyciad Marchnad					
Barclays	**M**	20-Jun-16	13-Sep-66	3.660%	**5,750,000**
Benthyciad ad-daladwy Llyw.C					
Benthyciad 1 Gwella Tai ac Eiddo Gwag	**M**	06-Mar-15	31-Mar-30	0.000%	556,075
Benthyciad 2 Gwella Tai ac Eiddo Gwag	**M**	27-Mar-20	31-Mar-35	0.000%	250,000
					806,075
CYFANSWM					**107,160,496**

Allwedd:A = Annuity (Blwydd-dâl) M = Maturity (Benthyciad sy'n aeddfedu)

Atodiad C

Dangosyddion Darbodus sy'n ymwneud â Rheoli'r Trysorlys

Dyled gros a'r gofyniad ynghylch Cyllid Cyfalaf
Er mwyn sicrhau bod dyled yn cael ei defnyddio at ddibenion cyfalaf yn unig yn y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r ddyled allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ôl y Swyddog Adran 151, ni chafodd yr awdurdod anhawster wrth fodloni'r gofyniad hwn yn 2022/23 ac nid yw'n rhagweld unrhyw anawsterau yn y flwyddyn gyfredol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau sy'n bodoli ar hyn o bryd a'r cynigion yn y rhaglen gyfalaf tair blynedd.

Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol			
	2023/24	**2024/25**	**2025/26**
	£m	**£m**	**£m**
Benthyca	155	163	168
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	7	12	12
Cyfanswm	**162**	**175**	**180**

Terfyn Gweithredol ar gyfer Dyled Allanol			
	2023/24	**2024/25**	**2025/26**
	£m	**£m**	**£m**
Benthyca	149	157	162
Rhwymedigaethau hirdymor eraill	6	11	11
Cyfanswm	**155**	**168**	**173**

Strwythur aeddfedu benthyca		
	Terfyn uchaf	**Terfyn isaf**
Llai na 12 mis	20%	0%
12 mis ac o fewn 24 mis	20%	0%
24 mis ac o fewn 5 mlynedd	50%	0%
5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd	75%	0%
10 mlynedd a throsodd	95%	25%
Is-gategori 10 mlynedd a throsodd 50 mlynedd a throsodd	20%	0%

Terfyn uchaf ar gyfer cyfanswm y prifsymiau a fuddsoddir am fwy na blwyddyn		
2023/24	**2024/25**	**2025/26**
£2.5m	£2.5m	£2.5m

Meincnod Atebolrwydd

Dangosydd darbodus newydd ar gyfer 2023/24 yw'r Meincnod Atebolrwydd. Gofyniad Benthyca Net awdurdod lleol yw'r Meincnod Atebolrwydd, ynghyd â lwfans hylifedd. Ar ei ffurf symlaf, caiff ei gyfrifo drwy dynnu'r symiau ar y fantolen y gellir eu buddsoddi (cronfeydd wrth gefn, balansau llif arian) o swm y ddyled allanol sydd yn ddyledus. Wedyn ychwanegu isafswm y buddsoddiadau sydd eu hangen ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd.

Mae pedair rhan i'r Meincnod Atebolrwydd:-

• Dyledion y benthyciadau sy'n ddyledus: benthyciadau presennol yr Awdurdod fydd dal heb eu talu yn y blynyddoedd i ddod.

• Benthyciadau CFR: mae hyn yn cael ei gyfrifo yn unol â'r diffiniad o fenthyciadau CFR yn y Cod Darbodus a'i ragamcanu i'r dyfodol yn seiliedig ar fenthyca darbodus cymeradwy a'r MRP arfaethedig.

• Gofynion o ran benthyciadau net: bydd hyn yn dangos dyled gros benthyciadau'r Awdurdod namyn buddsoddiadau rheoli'r trysorlys ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf, wedi'i ragamcanu i'r dyfodol ac yn seiliedig ar ei fenthyciadau darbodus cymeradwy, yr MRP arfaethedig ac unrhyw lif arian mawr a ragwelir.

• Meincnod atebolrwydd (neu'r gofynion o ran benthyciadau gros): mae hyn yn cyfateb i'r gofynion o ran benthyciadau net ynghyd â lwfans hylifedd tymor byr.